Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf

# Crynodeb Ymchwil

**Cefndir**
Ym mis Ebrill 2007, comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad Wavehill Consulting i gynnal gwerthusiad o Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r prif adroddiad gwerthuso a baratowyd fel rhan o'r ymchwil hon.

Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad Cymunedau yn Gyntaf yn 2001 mewn 142 ardal ledled Cymru, gan gynnwys: 100 ward; 32 is-boced o amddifadedd a 10 o Gymunedau Buddiant neu Gynigion Dychmygus. Cafodd y rhaglen ei sefydlu ar yr egwyddor bod tlodi ac anfantais yn cael eu creu gan nifer o ffactorau cymhleth a bod angen deall yr achosion cyn gallu mynd i'r afael â'r anfanteision hyn. Felly, sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf i roi cyfle i bobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd, a'r asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau yn y cymunedau hynny, fwrw golwg ar realiti tlodi yn eu hardal a gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag ef.

Sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2001 ac, o'r cychwyn, y syniad oedd sefydlu cronfa i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn hytrach na chronfa strategol. Yn ymarferol, mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn dosbarthu symiau bach o gyllid ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau i grwpiau cymunedol yn gyflym ac yn hawdd. Cynlluniwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth i osgoi mân-reolau trwy leihau'r gwaith papur sy'n gysylltiedig ag ymgeisio a gwerthuso. Trwy wneud hyn, roedd y Gronfa Ymddiriedolaeth yn ceisio dosbarthu cyllid i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gyflym ac yn hawdd, gan ddatblygu teimlad cadarnhaol o fewn ardaloedd oedd wedi dioddef o amddifadedd hirdymor.

Rheolir Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan y Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (RhCCG) ac fe'i gweinyddir yn ganolog gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) trwy dîm o chwe aelod staff. Mae'r tîm yn rheoli cyllideb flynyddol o £3 miliwn, a bydd y ffigur hwn yn codi i £3.23 miliwn yn 2007/08 i helpu i gefnogi'r 46 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ychwanegol sydd bellach yn gymwys i ymuno â Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Dyrennir swm penodol o arian bob blwyddyn i bob un o ardaloedd cyfredol Cymunedau yn Gyntaf, a gall grwpiau cymunedol sy'n gweithio yn yr ardal honno wneud cais am gyfran ohono. Mae'r 100 partneriaeth ward, ynghyd â'r 10 cymuned fuddiant neu gynnig dychmygus, yn derbyn £20,000 y flwyddyn. Mae'r 32 ardal a ddosberthir fel is-bocedi o amddifadedd yn derbyn £10,000 y flwyddyn. Gellir cyflwyno cais am hyd at £5,000.

Gwneir penderfyniadau yn ganolog ynglŷn â cheisiadau a gyflwynir i'r cynllun gan y Panel Cynghori ar Grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Mae'r Panel hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 9 sefydliad sy'n rhan o'r RhCCG, sef: Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon (Cymru); y Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol; Datblygu Cymunedol Cymru; Cymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu; Groundwork Cymru; Menter a Busnes; Canolfan Cydweithredol Cymru; Cymdeithas Cynghorau Gwirfoddol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**Diben y gwerthusiad**
Elfen allweddol y gwerthusiad hwn oedd ystyried y pedwar cwestiwn ymchwil canlynol:

- Pa mor effeithlon ac effeithiol yw gweinyddiaeth bresennol Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf? A gaiff gweinyddiaeth y gronfa ei chynnal yn dda gan roi gwerth da am arian?
- A ddefnyddir grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn effeithiol i fodloni amcanion Cymunedau yn Gyntaf?
- I ba raddau y mae rôl bresennol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn y Gronfa Ymddiriedolaeth yn briodol o ran y berthynas rhwng prosiectau'r Gronfa Ymddiriedolaeth a'r gwaith a gyflawnir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf?
- A yw'r egwyddorion a ddefnyddir i reoli'r dyfarniad cyllid rhwng mathau o brosiectau a mathau o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (ee cymunedau buddiant, ardaloedd ward, Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a phocedi o amddifadedd) yn briodol, yn enwedig yng ngoleuni'r Mynegai Amddifadedd Lluosog newydd ar gyfer Cymru?

Yn ogystal ag ateb y cwestiynau uchod, nododd yr ymchwil enghreifftiau o arfer da i'w cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso.

**Gwaith maes**

Roedd yr ymchwil yn cynnwys pum elfen o waith maes fel a ganlyn:

- Cyfweliadau gyda 19 o randdeiliaid o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, RhCCG a CGGC.
- Tri Grŵp Ffocws Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cwmpasu'r De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd. Hefyd, cafodd Partneriaethau ddewis i gymryd rhan yn yr ymchwil trwy lenwi holiadur eu hunain neu trwy lenwi holiadur gyda chymorth staff ymgynghori cymwys.
- Cyfweliadau prosiect gyda sampl o 361 prosiect sy'n cynrychioli'r 5,958 prosiect sydd wedi derbyn cyllid trwy Gronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf.
- Cyfweliadau gyda 15 ymgeisydd aflwyddiannus
- Ymweld â 14 prosiect i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o'r mathau o weithgareddau roedd grwpiau'n gallu eu darparu o ganlyniad i grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth.

**Casgliadau**

Dyma brif gasgliadau'r ymchwil:

- O safbwynt y prosiectau a'r rhanddeiliaid, gwelir bod y Gronfa Ymddiriedolaeth yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Mae proses weinyddu ac ymgeisio y Gronfa Ymddiriedolaeth yn gweithio'n dda.
- Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn darparu gwerth am arian.
- Er na sefydlwyd y Gronfa Ymddiriedolaeth fel cronfa strategol gyda'r bwriad o ddarparu gweithgareddau i gyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf, mae wedi cefnogi rhai o amcanion Cymunedau yn Gyntaf yn sgil ei gwaith o ddosbarthu grantiau, yn enwedig:
    - Gwella hyder a hunan-barch y bobl sy'n byw yn y gymuned
    - Gwella iechyd a lles
    - Annog dinasyddiaeth weithredol
- Ni chafodd ymgeiswyr am arian y Gronfa Ymddiriedolaeth eu gorfodi i gysylltu â'u Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol nac i gyfrannu at y bartneriaeth honno. Mae rhai partneriaethau'n anfodlon ynglŷn â hyn, ond nid i'r graddau y byddem yn argymell newid cynllun y rhaglen fel y mae ar hyn o bryd.
- Ar hyn o bryd, mae gwariant yn gymharol deg ar draws y tri math o ardal Cymunedau yn Gyntaf: wardiau, is-wardiau a chymunedau buddiant neu gynigion dychmygus, ond mae cymunedau buddiant rhywfaint ar ei hôl hi.

**Argymhellion**
Dyma rai o'r argymhellion a wnaed o ganlyniad i gasgliadau'r ymchwil:

- Dylid parhau i ganiatáu ceisiadau o flwyddyn i flwyddyn i'r Gronfa Ymddiriedolaeth i gefnogi cynaliadwyedd grwpiau.
- Wrth gymeradwyo ceisiadau, dylai'r RhCCG nodi'r grwpiau hynny y gall cyngor ar gynaliadwyedd fod yn briodol iddynt, a chysylltu â nhw i gynnig y cymorth hwnnw.
- Mae angen marchnata'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn well i dargedu'r cymunedau cymwys nad ydynt yn cyflwyno ceisiadau i'r Gronfa.
- Dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r RhCCG ystyried y syniad o 'Grant Ffurfio' i ddarparu cyllid cychwynnol i grwpiau newydd nad ydynt o bosibl yn ateb y gofynion i gyflwyno cais i'r Gronfa Ymddiriedolaeth ee cyfansoddiad a chyfrif banc. Gallai hyn ddarparu dull defnyddiol o gefnogi'r gwaith o ddatblygu grwpiau newydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Mae angen gwella'r dull o rannu gwybodaeth a gesglir gan y RhCCG am arfer da. Mae awgrymiadau'n cynnwys datblygu Pecyn Cymorth Dysgu i'w rannu gyda phartneriaethau a phrosiectau, a digwyddiadau rhwydweithio rhanbarthol i rannu gwybodaeth.
- Ni ddylai Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gael rheoli'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn eu hardaloedd. Dylai'r broses gymeradwyo ar gyfer ceisiadau gael ei chadw hyd braich oddi wrth y bartneriaeth.
- Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau â'r system bresennol o ddyrannu cyllid i'r 142 ardal wreiddiol o fewn Cymunedau yn Gyntaf ond, er mwyn creu 'momentwm' mewn Ardaloedd Cymuned Ehangach Haen Is newydd, hwyrach y byddai'n werth dyrannu arian ychwanegol i'r cymunedau hyn yn y ddwy flynedd gyntaf i annog cynifer o grwpiau cymunedol â phosibl i gymryd rhan. Os yn bosibl, argymhellir y dylid dyrannu hyd at £20,000 i bob cymuned yn y ddwy flynedd gyntaf.
- Er mwyn sicrhau bod grwpiau gwirfoddol a chymunedol llawr gwlad yn elwa ar gynlluniau grant bach, dylid gosod uchafswm ar drosiant sefydliadol ar gyfer y grwpiau sy'n ymgeisio.
- Dylai'r corff sy'n dal y grantiau ddarparu ffurflenni templed i helpu grwpiau i fesur canlyniadau, gan gynnwys gallu a feithrinwyd, partneriaethau a sefydlwyd, cynaliadwyedd cynyddol ac ati. Mae'r gwaith o werthuso arfer da a gwersi a ddysgwyd o safbwynt y prosiectau sy'n derbyn y grant yn gyffredinol yn hanfodol ar draws rhaglenni grant.

**Arfer da**
Amlygodd yr ymchwil yr enghreifftiau canlynol o arfer da yng ngweinyddiaeth, proses ymgeisio a phrosiectau Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf:

- Mae cymorth un-i-un a chymorth swyddog allgymorth ar gael i grwpiau ymgeiswyr
- Mae cymorth canolog i ddelio ag adenillion ffurflenni ariannol a gweithdrefnau gweinyddol eraill sy'n ymwneud â'r corff dyfarnu grantiau ar gael i grwpiau ymgeiswyr.
- Mae'r ffurflen gais ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth yn syml ac yn hawdd i'w deall, ac nid yw'r rhan fwyaf o brosiectau'n cael unrhyw broblemau i gwblhau'r ffurflen gais.
- Mae'r amserlen ar gyfer asesu ceisiadau am grantiau'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn dderbyniol. Mae penderfyniadau cyflym yn bwysig iawn, yn enwedig i grwpiau bach.
- Mae panel asesu y Gronfa Ymddiriedolaeth yn glir ynglŷn â'r meini prawf cymhwyster ar gyfer grantiau ac yn fecanwaith addas ar gyfer asesu ceisiadau.
- Mae CGGC wedi sefydlu systemau cadw cofnodion da ar gyfer y Gronfa Ymddiriedolaeth, a gall ddarparu dadansoddiad o wahanol elfennau yn gyflym ac yn syml.

- Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn creu teimlad cadarnhaol yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf trwy roi'r argraff bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i grwpiau lleol yn uniongyrchol.
- Mae hyblygrwydd y cynllun yn golygu y gall cyllid sydd heb ei wario mewn un ardal gael ei ddychwelyd i gronfa ganolog a'i ailddyrannu i ardaloedd sydd wedi gwario eu dyraniad llawn.